# PWYLLGOR PENSIYNAU DYDD LLUN, 12 MEHEFIN 2017

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr: Stephen Churchman (Cadeirydd), Simon Glyn, John Griffith (Cynrychiolydd Cyngor Sir Ynys Môn), John Brynmor Hughes, Peredur Jenkins, Aled Wyn Jones a John Pughe Roberts

Swyddogion:- Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi), Nicholas Hopkins (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

Eraill a wahoddwyd: Huw Trainor (Aelod Bwrdd Pensiwn – arsylwi)

## 1. ETHOL CADEIRYDD

**Penderfynwyd ail ethol y Cynghorydd Stephen Churchman yn Gadeirydd i'r pwyllgor hwn am y flwyddyn 2017/18.**

## 2. ETHOL IS GADEIRYDD

**Penderfynwyd ethol y Cynghorydd John Pughe Roberts yn Is-gadeirydd i'r pwyllgor hwn am y flwyddyn 2017/18.**

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Peter Read.
Nodwyd nad oedd cynrychiolaeth Cyngor Bwrdeistref Conwy wedi ei gadarnhau.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Eglurwyd nad oedd angen i bawb ddatgan buddiant fel rhai oedd yn derbyn / cyfrannu at y Gronfa Bensiwn

## 5. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar yr 16 o Fawrth fel rhai cywir.

## 7. PWL BUDDSODDI CYMRU

Cyflwynwyd adroddiad gan Y Pennaeth Cyllid yn rhoi diweddariad i'r Aelodau am ddatblygiad Pŵl Buddsoddi Cymru fydd yn gerbyd i fuddsoddi asedau'r wyth Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru.

Rhoddwyd cyflwyniad byr ar gefndir datblygu'r Pŵl ac yng nghyd-destun trefniadau llywodraethu, amlygwyd y byddai'r Cydbwyllgor Llywodraethu yn cyfarfod yn ffurfiol ddiwedd Mehefin. O ran cynrychiolaeth Cronfa Gwynedd, argymhellwyd yr angen i gynllunio cynrychiolaeth briodol ar y Cydbwyllgor, ac awgrymwyd mai Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau fuasai'r cynrychiolydd tebygol, ynghyd a'r Pennaeth Cyllid. Yn absenoldeb y Cadeirydd, awgrymwyd y byddai'r Is-gadeirydd yn mynychu.

Eglurwyd mai cam cyntaf y Cydbwyllgor fydd derbyn adroddiadau ar y broses caffael ar gyfer penodi Gweithredwr ar gyfer y Cerbyd Buddsoddiadau Cyfunol, gan argymell apwyntio'r cynigydd gorau fyddai'n cyrraedd gofynion y fanyleb. Ategwyd bod 8 Gweithredwr wedi ymateb i'r Holiadur Dethol, gyda 6 ohonynt yn cael gwahoddiad i dendro. Er mai'r bwriad yw dewis Gweithredwr yn ystod Haf 2017, ni fydd yn gweithredu tan Ebrill 2018.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â pherthynas y Pwyllgor Pensiynau gyda'r Gweithredwr yng nghyd-destun cynnal trafodaethau a chyfathrebu, nodwyd y byddai angen efallai, i'r Gweithredwr gynnig manylion o'u trefniadau ymgysylltu a chyfathrebu i'r wyth gronfa. Mewn ymateb i'r sylw awgrymwyd i'r Cadeirydd, yng nghyfarfod nesaf y Cydbwyllgor, cynnig y mater yma fel eitem benodol ar raglen y Cydbwyllgor.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chostau cosb torri cytundeb gyda rheolwyr mandadau presennol Cronfa Gwynedd, nodwyd y byddai costau trosiannol posib. Ategwyd bod darn o waith ymchwil ar y gweill i ystyried rhannu costau ymysg yr wyth gronfa (ar sail gwarchodaeth).

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad cynnydd.**
**PENDERFYNWYD mai Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau fyddai yn cynrychioli Gwynedd ar y Cydbwyllgor Llywodraethu, gyda'r Is-gadeirydd yn mynychu yn ei absenoldeb.**

## 8. CYNHADLEDDAU PENSIYNAU

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid yn gofyn i'r aelodau enwebu unigolion i fynychu cynadleddau ar ran Cronfa Gwynedd. Amlygwyd bod y Pwyllgor yn arfer anfon cynrychiolwyr ar sail rota i nifer o gynadleddau yn ystod y flwyddyn, er mwyn cynnal a gwella sgiliau a gwybodaeth aelodau a swyddogion.

**PENDERFYNWYD ar yr enwebiadau canlynol ar gyfer cynadleddau 2017**

- **Cynhadledd Ymddiriedolwyr CPLlL, Bournemouth – Cynghorydd Aled Wyn Jones, Cynghorydd Peter Read (Cynghorydd Seimon Glyn fel eilydd i'r Cynghorydd Peter Read)**
- **Cynhadledd Copa Buddsoddi LGC, Casnewydd – Cynghorydd Peredur Jenkins, Cynghorydd John Pughe Roberts (Cynghorydd John Brynmor Hughes fel eilydd)**
- **Cynhadledd Flynyddol LAPFF, Bournemouth – Cynghorydd Stephen Churchman**

## 9. DYDDIADAU CYFARFODYDD PENSIYNAU

Cyflwynwyd, er gwybodaeth adroddiad gan y Pennaeth Cyllid yn rhannu dyddiadau cyfarfodydd Pensiynau er mwyn galluogi i'r Aelodau gynllunio'n briodol. Amlygwyd, er mai'r Pwyllgor Pensiynau yw'r corff sydd yn gwneud y penderfyniadau ar gyfer y Gronfa Bensiwn bod y Bwrdd Pensiwn, Y Panel Buddsoddi a'r Cydbwyllgor Pŵl Cymru yn

cyfrannu at drefniadau megis, rhoi trosolwg ar reolaeth a gweithrediad y Gronfa Bensiwn, craffu perfformiad buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn a llywodraethu pŵlio buddsoddiadau dros yr wyth gronfa Gymreig.

Mewn ymateb i'r adroddiad nodwyd bod y wybodaeth yn fuddiol a gofynnwyd i'r aelodau nodi'r dyddiadau yn eu dyddiaduron. Cytunwyd i gylchredeg dyddiadau'r "hyfforddiant sylfaenol i ymddiriedolwyr" ar gyfer aelodau newydd y Pwyllgor, unwaith daw'r wybodaeth i law.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth**

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 y.h. a daeth i ben am 2.50 y.h.

**CADEIRYDD**